

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 24AIN O EBRILL 2017 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Bari Evans, Philip Williams, Elfed Williams, Iona Edwards-Jones, Iwan Jones Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Hywel Davies, Stan Williams, Jill Evana, a Falmai Evans.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 27ain o Fawrth 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyrau a diolch oddi wrth y mudiadau canlynol am gefnogaeth y Cyngor:-

1. Clwb-y-Pentan, Llanrhaeadr.

2. Cymdeithas Maes-y-Plwm.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn edrych i mewn i'r "Plât Ddim Parcio" ar y gyffordd wrth Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr.

C. Mae Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi adroddi'r canlynol:-

1. Thrwsio tyllau yn y ffyrdd o amgylch y gymuned.

2. Glanhau'r ffyrdd y gymuned.

3. Thrwsio cyfer gwli wrth Brÿn Mulan, Prion.

4. Tynnu coed peryglus.

5. Archebu arwyddion ffyrdd newydd.

D. Cytunwyd y Cynghorwyr Philip Williams, Bari Evans ac Elfed Williams edrych i mewn i'r arwyddion "Araf - Plant yn Chwarae" rhwng Ysgol Bro Cinmeirch a Ffordd Pen-y-bryn, Llanrhaeadr.

4. CYNRYCHOLAETH Y CYNGOR.

Derbyniwyd adroddiad y Clerc bod y naw aelod presennol y Cyngor wedi ymgeisio am yr 10 sedd bresennol y Cyngor, ac nid fydd yna etholiad y Cyngor Cymuned ar 4ydd o Fai 2017.

Mi fydd y sedd wag ar y Cyngor yn cael ei hysbysebu yn cyfarfod mis Mai'r Cyngor.

5. POLISI CYNGOR SIR DDINBYCH "CLUDIANT I DDYSGWYR – GWASANAETH PLANT AC ADDYSG".

Derbyniwyd ymateb gyfrinachol Corff Llywodraethol Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr i'r "Polisi Cyngor Sir Ddinbych - Cludiant i Ddysgwyr - Polisi Plant ac Addysg". Cytunodd y Cynghorwyr Elfed Williams a Iona Edwards-Jones ymateb i'r "Ymgynghoriad" dros y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r Ysgolion Bro Cinmeirch a Phant Pastynog.

6. CYLLID.

Taliadau:-

A: Lwfans y Cadeirydd am y tymor 2016/17 - £250.00.

B. Aon Ltd – Yswiriant Blynyddol y Cyngor - £530.60.

C. Cennin Ltd - Chostau'r Wefan Flynyddol y Cyngor £83.86.

D. CAD Recycling Ltd - Llogi'r Sgipiadau Cymunedol ac ymadael o'r gwastraff - £1,304.44.

E. Cylch Meithrin, Prion - Rhodd Ariannol Flynyddol - £250.00.

F. Clwb Ti a Fi, Prion - Rhodd Ariannol Flynyddol - £250.00.

7. CAIS CYNLLUNIO.

Codi estyniad deulawr a chael gwared ar dy wydr presennol ac estyniad fflat yn Daflyn, Gernant, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

8. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd llythyrau am gefnogaeth ariannol flynyddol oddi wrth Gylch Meithrin a Chlwb Ti a Fi, Prion - gwelir 6E a 6F uchod.

9. UNRHYW FATER ARALL.

A. Cytunodd y Clerc i atgoffa “Cyfoeth Naturiol Cymru” ynglŷn ar ganlynol:-

1. Ffens beryglus eisiau ei thrwsio wrth Flwch Postio Brenhinol yn Bentre' Llanrhaeadr”.
2. Garreg ar goll ar waelod pont yr afon ar Stad Pont-y-Bedol, Llanrhaeadr.

B. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar ganlynol:-

1. Tir comin tu ôl i Ysgol Pant Pastynog, Prion.
2. Problem trydan yn mynd i ffwrdd yn aml yn ddiweddar yn ardal Saron a Peniel.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR –Nos Lun 22ain o Fai 2017 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.00 o’r gloch.